**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (36)**

**Dydd Iau, 6 Rhagfyr 2001**

# AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Jenny Randerson, dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 3**
**Cwestiynau Llafar i Andrew Davies, y Trefnydd ar ei gyfrifoldebau nad ydynt yn ymwneud â Busnes**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 4**
**Datganiad**
**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn gwneud datganiad ar ffermio i'r Dyfodol**

**Eitem 5**
**Gohirio Rheol Sefydlog 6.27**
*NDM883* Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 34.4, yn penderfynu gohirio Rheol Sefydlog 6.27 i alluogi'r Cwestiynau i'r Cynulliad a nodir isod i gael eu cyflwyno ar 13 Rhagfyr 2001.

1. Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru i'w hateb ar 8 Ionawr 2002;

2. Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau i'w hateb ar 10 Ionawr 2002; a

3. Chwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i'w hateb ar 10 Ionawr 2002

**Eitem 6 - *bydd y Trefnydd yn cynnig bod yr eitem hon yn cael ei thrafod ar 8 Ionawr 2002***
**Gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 9 ar Blant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Nodded**

**Eitem 7**
**Gymeradwyo'r gyllideb ddiwygiedig gan gymryd hyblygrwydd diwedd blwyddyn i ystyriaeth**
*NDM882*

Bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 19.5, yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2001-02 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mercher 28 Tachwedd gan y Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau, Edwina Hart.

Gosodwyd y dogfennau canlynol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Tachwedd

1. Tabl 1 – sy'n dangos y newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth bresennol rhwng y Prif Grwpiau Gwariant;

2. Tabl 2 –sy'n dangos y darpariaethau arfaethedig diwygiedig ar gyfer y Prif Grwpiau Gwariant gan roi ystyriaeth i'r dyraniadau ychwanegol.

3. Nodiadau Esboniadol sy'n ymwneud â Thablau 1&2.

4. Nodyn Esboniadol sy'n ymwneud â'r cynnig hwn.

Cliciwch yma i weld Tabl 1 – sy'n dangos y newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth bresennol rhwng y Prif Grwpiau Gwariant - *Noder na fydd y ddogfen hon ar gael ar We'r Siambr*
Cliciwch yma i weld Tabl 2 –sy'n dangos y darpariaethau arfaethedig diwygiedig ar gyfer y Prif Grwpiau Gwariant gan roi ystyriaeth i'r dyraniadau ychwanegol - *Noder na fydd y ddogfen hon ar gael ar We'r Siambr*
Cliciwch yma i weld y Nodiadau Esboniadol sy'n ymwneud â Thabl 1
Cliciwch yma i weld y Nodiadau Esboniadol sy'n ymwneud â Thabl 2
Cliciwch yma i weld y Nodyn Esboniadol sy'n ymwneud â'r cynnig hwn

**Eitem 8**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru**
*NDM884*

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn datgan ei bryder ynghylch yr agendor difrifol sydd rhwng Cymru a gweddill y DU o ran GDP y pen a'r swyddi sy'n parhau i gael eu colli yn y sector

gweithgynhyrchu, ac yn datgan bod yn rhaid wrth strategaeth economaidd effeithiol i sicrhau datblygiad amgylcheddol-gynaliadwy ym mhob rhan o Gymru a fyddai'n:

1. anelu at ddarparu digon o swyddi i warantu cyfleoedd gyrfaol llawn ar gyfer y boblogaeth gyfan ym mhob ardal o Gymru, gan gynnwys yr ardaloedd gwledig a'r ardaloedd traddodiadol diwydiannol;
2. gosod targedau uchelgeisiol i wireddu'r potensial aruthrol i gynhyrchu ynni a bwyd o ffynonellau dilygredd ac adnewyddadwy ;
3. clustnodi'n systematig y sectorau twf hynny o'r economi y mae gan Gymru fanteision cynhenid ynddynt, a sicrhau bod yr adnoddau addysgol a'r isadeiledd sy'n cynnal y sectorau hynny yn cael digon o flaenoriaeth yng nghyllideb y Cynulliad;
4. mynnu'r hawl i ddefnyddio'r ystod mwyaf o fesurau cyllidol sy'n gyson â rheoliadau'r UE; ac
5. ystyried cyd-destun rhyngwladol ein strategaeth yn llawn, gan gynnwys dadansoddiad o'r gorau a arferir mewn gwledydd bach eraill sydd wedi profi llwyddiant economaidd, gan gymryd camau penderfynol i wneud y gorau o'r cyfleoedd a ddaw gydag ehangu'r UE.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol*
*(1)*
*(2)+(3)*

**1. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Dileer o "ac yn datgan" hyd ddiwedd y cynnig, a rhodder "ond mae'n hyderus y bydd strategaeth economaidd Llywodraeth y Cynulliad, a'r camau a fydd yn deillio ohoni, yn sicrhau y bydd economi pob rhan o Gymru yn cael ei datblygu mewn modd sy'n amgylcheddol gynaliadwy" yn ei le

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**

Ym mhwynt 3 dileer "clustnodi'n systematig" a rhodder "helpu busnesau preifat i ddarganfod a datblygu" yn ei le

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**

Ym mhwynt 4, ar ôl "rheoliadau'r UE", ychwaneger "a Deddf Llywodraeth Cymru"

**Eitem 9**

**Dadl Fer:**
*NDM881* **Phil Williams (Dwyrain De Cymru); Darpariaeth ar gyfer y Celfyddydau Gweledol yng Nghymru**

**Dylai'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm.**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 11 Rhagfyr 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**